***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 2

# TRAFODIADAU CYN-GWBLHAU

## RHAN 1

## RHAGARWEINIAD A CHYSYNIADAU ALLWEDDOL

*Trosolwg*

1 (1) Mae'r Atodlen hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyso'r Ddeddf hon (adran 10 (contract a throsglwyddo) yn benodol) i drafodiadau cyn-gwblhau (nodir ystyr hynny ym mharagraff 3).

(2) Mae'r Atodlen wedi ei threfnu fel a ganlyn—

(a) mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaethau rhagarweiniol sy'n nodi'r amgylchiadau pan fo'r Atodlen hon yn gymwys (paragraff 2) ac yn esbonio ystyr "trafodiad cyn-gwblhau" a thermau allweddol eraill y cyfeirir atynt yn yr Atodlen;

(b) mae Rhan 2 yn nodi sut y mae'r Ddeddf hon yn gymwys mewn achosion pan fo'r trafodiad cyn-gwblhau yn achos o aseinio hawliau (nodir ystyr hynny ym mharagraff 6);

(c) mae Rhan 3 yn nodi sut y mae'r Ddeddf hon yn gymwys mewn achosion sy'n ymwneud â throsglwyddiadau annibynnol (nodir ystyr hynny ym mharagraff 12);

(d) mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer rheol arbennig ("rheol isafswm y gydnabyddiaeth") sy'n gymwys i bennu'r gydnabyddiaeth a roddir mewn achosion pan fo'r partïon i drafodiad cyn-gwblhau yn gysylltiedig â'i gilydd neu fel arall heb fod yn gweithredu hyd braich;

(e) mae Rhan 5 yn darparu i ryddhad fod ar gael i brynwyr penodol mewn achosion pan ymrwymir i drafodiadau cyn-gwblhau penodol;

(f) mae Rhan 6 yn gwneud rhai darpariaethau dehongli cyffredinol.